

# Realiti bendigedig

“Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd.” (adn. 8)

## Beth am ddarllen Effesiaid 2:6–13 ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym am ofyn cwestiwn: Sut mae adnabod y meddylfryd Philistaidd yn yr Eglwys wrth inni ystyried y gwirionedd bendigedig o gyfiawnhad trwy ffydd? Mae'n bresennol pan mae yna anfodlonrwydd i gydnabod y gwirionedd fod person yn medru dweud heb unrhyw amheuaeth ei fod ef neu hi yn *gadwedig*. O'i osod mewn ffordd arall, mae'r rhai sy'n meddu ar feddylfryd Philistaidd yn mynnu na all yr un dyn na dynes honni fod ganddynt sicrwydd o iachawdwriaeth bersonol.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe fu i mi ddarllen y dyfyniad yma o gyfansoddiad Eglwys: “Nid yw'n bosibl i berson wybod, gyda sicrwydd ffydd nad yw'n agored i gamddehongliad, ei fod wedi derbyn gras Duw.” Os dyna yw barn eich Eglwys chi, yna yr ydych yn dyst i rywbeth sydd yn llygru Cristnogaeth, oherwydd yn ôl y testun heddiw, “Trwy ras yr ydych wedi eich achub.” Sylwch ar y geiriau “*yr ydych wedi eich achub*” fel geiriau yn y gorffennol. Mae'r Ysgrythur yn cyfeirio yma at y ffaith ein bod, wrth dderbyn Iesu Grist i'n bywydau, yn cael ein hachub o'r farn ar ein pechod, a bod Duw yn rhoi inni sicrwydd ein bod wedi ein cymodi â Duw.

Nid hwn yw'r unig waith y mae Duw yn ei wneud ym mywyd y crediniwr. Unwaith y mae un yn cael ei gyfiawnhau, yna mae angen am sancteiddhad, y broses sydd yn ein newid yn debycach i Iesu Grist. Pan mae Duw yn ein cyfiawnhau, mae'n *cyhoeddi* ein bod yn gyfiawn trwy farwolaeth Iesu Grist drosom ar y groes. Pan mae'n ein sancteiddio, mae'n ein *gwneud* yn gyfiawn trwy ei rym a'i bresenoldeb o'n mewn. Er ein bod yn *cael ein hachub* yn barhaus o rym pechod, fe allwn dystio gydag argyhoeddiad ein bod *wedi ein hachub* o gosb pechod. Ai camddealltwriaeth yw hyn? Nage – realiti bendigedig.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 10:9; 10:27–29; 2 Cor. 1:10; Titus 3:3–7

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut gawsom ein hachub?
2. Sut cawn ein hachub?

## Gweddi

O Dad, rwy'n diolch i ti nad oes raid i mi ofyn a ydw i'n gadwedig ai peidio, oherwydd mae dy Ysbryd di yn tystiolaethu wrth fy ysbryd fod popeth yn dda yn fy enaid. Er gogoniant i'th enw bendigedig. Amen.